# COFNODION CYFARFOD O'R CYNGOR SIR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR - NEUADD Y SIR, LLANDRINDOD AR DDYDD MERCHER, 19 HYDREF 2016

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, PJ Ashton, D Bailey, G R Banks, G J Bowker, R G Brown, J H Brunt, M J B Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, J C Holmes, G Hopkins, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, MC Mackenzie, D Mayor, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, G Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, K M Roberts-Jones, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams, J M Williams, G I S Williams ac E A York

Talodd yr Aelodau deyrnged i Ann Holloway a oedd wedi huno, gan gyfeirio at ei hoes o wasanaeth cyhoeddus fel athrawes, Cynghorydd Tref a Chynghorydd Sir. Gwnaeth yr Aelodau a swyddogion sefyll am funud o dawelwch fel arwydd o barch.

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **YMDDIHEURIADAU** | **CC83- 2016** |

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Sir LV Corfield, KW Curry, SC Davies, EA Jones, GW Ratcliffe a JG Shearer.

| | | |
|---|---|---|
| **2.** | **COFNODION** | **CC84- 2016** |

Yn amodol ar gynnwys enw'r Cynghorydd Sir Eldrydd Jones yn y rhestr o aelodau a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar 13$^{eg}$ Gorffennaf, awdurdodwyd y Cadeirydd i lofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13$^{eg}$ Gorffennaf ac 8$^{fed}$ Medi 2016 fel cofnodion cywir.

| | | |
|---|---|---|
| **3.** | **DATGANIADAU O FUDDIANT** | **CC85- 2016** |

Datganodd y Cynghorydd Sir RG Thomas fuddiant yn eitem CC93 – 2016 Cyngor Cymuned Llanfechain oherwydd bod yr adroddiad yn ei enwi.

| | | |
|---|---|---|
| **4.** | **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD** | **CC86- 2016** |

Rhoddodd y Cadeirydd fanylion rhai o'r digwyddiadau yr oedd wedi'u mynychu gan gynnwys seremoni dinasyddiaeth anrhydeddus y Gyrcas yn Aberhonddu ym mis Gorffennaf a cham terfynol y 'Tour of Britain' ar Faes Sioe Frenhinol Cymru. Nododd lwyddiant Gwobrau Busnes Powys y gwnaeth y Cyngor Sir ei noddi yn Derring Lines ar 30$^{ain}$ Medi. Atgoffodd yr Aelodau am ei gyngerdd elusennol a gynhelir yn Llanfair ym Muallt ar 29 Hydref a Chinio dydd Sul yr Aelodau yng Nghaerberis ar 6 Tachwedd.

| 5. | CYHOEDDIADAU'R ARWEINYDD | CC87- 2016 |
|---|---|---|

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Wobrau Busnes Powys hefyd, a llongyfarchodd Invertek Drives Cyf o'r Trallwng a enwyd yn fusnes y flwyddyn Powys am yr ail flwyddyn yn olynol. Nododd hefyd y byddai tri cham o Rali GB Cymru'n cael eu cynnal yn y Sir a rhoddodd wybod bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r achos busnes amlinellol ar gyfer Ysgolion Uwchradd Aberhonddu a Gwernyfed a chyflwynir cynlluniau ar gyfer ysgol newydd yn lle Ysgol Bro Hyddgen.

| 6. | NEWYDDION Y PRIF WEITHREDWR | CC88- 2016 |
|---|---|---|

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw'r Cyngor at y data perfformiad blynyddol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd Powys yn yr 11eg safle o'r 22 Awdurdod yng Nghymru ond roedd wedi gwella mwyaf ond tri â gwelliant mewn 67% o ddangosyddion, dim newid mewn 10% a gostyngiad mewn 23%. Fel y Cyngor a ariennir gwaethaf yng Nghymru dyma ymdrech gwych a dymunodd y Prif Weithredwr bod ei ddiolch i staff yn cael ei gofnodi. Cyfeiriodd y Prif Weithredwr hefyd at yr amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn sy'n rhagweld y bydd gostyngiad ym mhoblogaeth y sir, yn enwedig yn nifer y plant ac oedolion oedran gweithio. Byddai hyn yn her i wasanaethau yn enwedig ysgolion oherwydd rhagwelir y bydd nifer y plant oedran ysgol uwchradd yn gostwng gan 400 erbyn 2019. Nododd y byddai'r setliad cyllideb dros dro yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac roedd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â chynigion ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol ond byddai'n ystyried uno gwirfoddol. Yn olaf llongyfarchodd dîm Safonau Masnach y Cyngor am eu herlyniad llwyddiannus o fasnachwyr twyllodrus a oedd yn gwerthu cynhyrchion gwynnu dannedd niweidiol yng 'Ngweithrediad Gleam'. Cytunodd y Cyngor y dylid anfon llythyr llongyfarch oddi wrth y Cadeirydd i'r tîm.

| 7. | TROSGLWYDDO CYFALAF AR GYFER CANOLFAN AILGYLCHU GWASTRAFF CARTREF | CC89- 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor trosglwyddiad cyfalaf yn symud £700,000 i mewn i'r gyllideb cyfalaf yn 2016-17 i ganiatáu ar gyfer prynu a datblygu safle ailgylchu gwastraff cartref. Byddai hyn yn caniatáu gwneud arbedion yn gynharach. Cynigiodd y Cynghorydd Wynne Jones yr argymhelliad, cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Michael Williams, a chafodd ei basio gan 40 pleidlais i 10 â 7 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo'r Trosglwyddiad Cyfalaf o £700,000.** | **Monitro perfformiad ariannol y Cyngor a sicrhau bod gwariant yn aros o fewn terfynau cymeradwy a bod yr isafswm 3% yn y gronfa wrth gefn gyffredinol yn cael ei gynnal.** |

| 8. | GWERTHUSIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL CYNLLUN POWYS YN UN DRAFFT 2015-16 | CC90- 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor Gwerthusiad a Chrynodeb Perfformiad Blynyddol Cynllun Powys yn Un drafft. Gwnaeth nifer o'r aelodau herio'r asesiad a gofyn pa wahaniaeth oedd yn cael ei wneud i fywydau trigolion Powys. Eglurwyd bod y ddogfen yn manylu ar enghreifftiau o'r gwahaniaeth a wnaethpwyd. Cyfeiriodd y Cynghorydd Sir Bailey, Hyrwyddwr Dementia'r Cyngor, at enwebiad Ysgol Gynradd Gymunedol Llan-faes ar gyfer gwobr oddi wrth y Gymdeithas Alzheimer ar gyfer ei gwaith â Chartref Preswyl Trenewydd y cyfeiriwyd ato yn yr asesiad. Cytunodd y Cyngor y dylai'r Cadeirydd anfon llythyr llongyfarch i'r ysgol.

Gofynnodd nifer o'r aelodau ynglŷn â'r asesiad bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni ei ymrwymiadau o ran Addysg, gan ddyfynnu nifer yr ysgolion mewn mesurau arbennig ac mewn diffyg cyllidebol. Rhoddodd yr Arweinydd wybod i'r Cyngor bod y gwerthusiad wedi'i anfon trwy e-bost at holl aelodau'r Pwyllgor Craffu a'i ystyried gan Grŵp Llywio Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu. Mae partneriaid y Cyngor ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ystyried yr asesiad hefyd.

Cafodd diwygiad y cynigiodd y Cynghorydd Sir Aled Davies, ac eiliodd y Cynghorydd Sir Gary Price, i newid yr asesiad ar gyfer Addysg i aflwyddiannus ei golli wrth gael ei roi i bleidlais, gan 9 pleidlais i 44.

Cynigiodd yr Arweinydd yr argymhelliad yn yr adroddiad i gymeradwyo Crynodeb a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol Cynllun Powys yn Un, cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Graham Brown, a chafodd ei basio gan 34 pleidlais i 19 â 4 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Cymeradwyo Crynodeb a Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol DRAFFT Cynllun Powys yn Un 2015 – 2016.** | **Sicrhau bod yr adroddiad yn rhoi hanes agored a chytbwys o berfformiad y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-16, yn erbyn yr ymrwymiadau a'r mesurau y manylwyd arnynt yng Nghynllun Powys yn Un 2014-17.**<br><br>**Sicrhau bod y Cyngor yn bodloni ei rwymedigaethau statudol fel y manylwyd arnynt ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a chanllawiau Cydamcanu – Cydymdrechu.** |

| 9. | PROTOCOL AR GYFER CYFRANOGIAD Y CYHOEDD YNG NGHYFARFODYDD Y CYNGOR | CC91- 2016 |
|---|---|---|

Ystyriodd y Cyngor brotocol ar gyfer caniatáu cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd arferol y Cyngor llawn gan gynnwys slot 20 munud ar gyfer cwestiynau cyhoeddus ar agendâu. Cafodd y protocol ei ystyried gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a chynigwyd ei roi ar dreial mewn cyfarfod cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2017 ac awgrymwyd cyfarfod y Cyngor ym mis Ionawr 2017.

Mynegodd nifer o'r aelodau bryder bod yr amrywiaeth o bobl sy'n gallu gofyn cwestiynau yn rhy eang ac efallai y dylai fod yn gyfyngedig i bobl sy'n byw ym Mhowys. Gofynnodd Aelodau hefyd am y weithdrefn ar gyfer gwrthod cwestiynau ac ateb cwestiynau atodol. Nid oedd yr aelodau eisiau i'r system wahaniaethu yn erbyn pobl sy'n byw ymhell o Landrindod, ac roeddynt eisiau i bob preswylydd gael y cyfle i gynnig cwestiwn atodol p'un a oeddynt yn gallu mynychu'r cyfarfod ai peidio.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Wynne Jones bod y treial yn cael ei ohirio i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ystyried y pwyntiau a godwyd yn y ddadl ac adrodd yn ôl i'r Cyngor ym mis Ionawr 2017, cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees, a chafodd ei golli wrth ei roi i bleidlais gan 26 pleidlais i 33 ag 1 yn ymatal.

Gadawodd y Cynghorydd Sir Van-Rees y cyfarfod.

Pleidleisiodd y Cyngor ar yr argymhelliad yn yr adroddiad y cynigiodd y Cynghorydd Sir Gemma Bowker, eiliodd y Cynghorydd Sirol Liam Fitzpatrick, a chafodd ei basio gan 35 pleidlais i 18 ag 1 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **(i) bod y protocol drafft ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor yn cael ei gymeradwyo.**<br>**(ii) cyn ei weithredu'n llawn, bod y protocol yn cael ei dreialu mewn un cyfarfod o'r Cyngor ar 26ain Ionawr 2017 ac yna'n cael ei adolygu gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.** | **Cydymffurfio â phenderfyniad y Cyngor Llawn ym mis Ionawr 2016 i archwilio opsiynau ar gyfer caniatáu i aelodau o'r cyhoedd gyfrannu yng nghyfarfodydd y Cyngor.** |

| 10. | ADOLYGIAD 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL | CC92- 2016 |
|---|---|---|

Nododd y Cyngor gynigion y Comisiwn Ffiniau ar gyfer etholaethau seneddol newydd ym Mhowys a fyddai'n gweld pob un o'r etholaethau presennol yn newid a chreu etholaethau sy'n torri ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Beirniadodd yr aelodau y cynigion nad oeddynt yn ystyried natur wledig ac roeddynt yn cytuno ei bod yn bwysig bod y Cyngor yn gwneud ymateb ffurfiol. Awgrymwyd bod yr arweinwyr grŵp yn cyfarfod i drafod ymateb drafft y gellir ei ystyried yng nghyfarfod arbennig y Cyngor ar 18fed Tachwedd. Cododd nifer o aelodau

faterion penodol i'w cymunedau ac awgrymwyd y dylid anfon pob un o'r rhain i'r Prif Swyddog Etholiadau i'w coladu.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Myfanwy Alexander, ac eiliodd y Cynghorydd Sir James Gibson-Watt, fod arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn cyfarfod i ystyried ymateb i'r Cyngor ei ystyried ar 18fed Tachwedd. Pasiwyd y cynnig gan 56 pleidlais i 0.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|
| **Bod arweinwyr y grwpiau gwleidyddol yn cyfarfod i ystyried ymateb i'r Cyngor ei ystyried ar 18fed Tachwedd 2016.** | **Darparu sylwadau oddi wrth Gyngor Sir Powys i'r Comisiwn Ffiniau.** |

Cafodd y Cyngor ei ohirio ar 12.50, ac ailddechrau am 1.30 p.m.

YN BRESENNOL
Y Cynghorydd SirK F Tampin (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Sir MC Alexander, PJ Ashton, D Bailey, G R Banks, G J Bowker, R G Brown, J H Brunt, M J B Davies, D E Davies, L R E Davies, E R Davies, S Davies, A W Davies, M J Dorrance, V E Evans, W J Evans, D O Evans, L Fitzpatrick, J Gibson-Watt, P Harris, M R Harris, S M Hayes, J C Holmes, G Hopkins, D C Jones, M J Jones, E M Jones, Eldrydd M Jones, G M Jones, D R Jones, J R Jones, W T Jones, F H Jump, P E Lewis, H Lewis, MC Mackenzie, D Mayor, S McNicholas, P J Medlicott, DW Meredith, R H Mills, ET Morgan, G Morgan, JG Morris, W J T Powell, WD Powell, GD Price, D R Price, P C Pritchard, K M Roberts-Jones, K S Silk, D A Thomas, W B Thomas, A G Thomas, D G Thomas, R G Thomas, T Turner, T J Van-Rees, G P Vaughan, D H Williams, S L Williams, J M Williams, G I S Williams and E A York

| 11. | CYNGOR CYMUNED LLANFECHAIN | CC93- 2016 |
|---|---|---|

Datganodd y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas fuddiant personol a rhagfarnus yn yr eitem hon a gadawodd y cyfarfod oherwydd bod yr adroddiad yn cyfeirio ato.

Ystyriodd y Cyngor gynnig i benodi aelod dros dro i Gymuned Llanfechain i weithredu fel Cynghorydd Cymuned hyd 8 Mai 2017. Roedd y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas wedi cytuno i gael ei benodi dros dro i'r swydd hon.

Eglurodd y Prif Swyddog Etholiadau, mewn perthynas â hyrwyddo aelodaeth o Gynghorau Tref a Chymuned, y byddai cyhoeddusrwydd cyn yr etholiadau ym mis Mai 2017, ond nad oedd gan y Cyngor Sir lawer o adnoddau i annog pobl i sefyll neu ddatblygu sgiliau cynghorwyr.

Cynigiodd y Cynghorydd Sir Phil Pritchard yr argymhelliad, cafodd ei eilio gan y Cynghorydd Sir Aled Davies, a chafodd ei basio gan 40 pleidlais i 0 â 2 yn ymatal.

| PENDERFYNWYD | Rheswm dros y Penderfyniad: |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **Gwneud Gorchymyn Cyngor Cymuned Llanfechain (Cael Gwared ar Anhawster) 2016 fel y nodir yn Atodiad A yr Adroddiad** | **Galluogi'r Cyngor Cymuned dan sylw i weithredu hyd ddiwedd y tymor hwn o wasanaeth ar 8 Mai 2017.** |

Dychwelodd y Cynghorydd Thomas i'r Siambr.

| | | |
|---|---|---|
| **12.** | **PENODIADAU I BWYLLGORAU** | **CC94- 2016** |

Nododd y Cyngor y penodiadau canlynol i bwyllgorau gan y grwpiau gwleidyddol y mae'r Swyddog Monitro wedi'u cymeradwyo o dan y pŵer dirprwyo cyffredinol y mae'r Cyngor wedi'i roi:

Penododd y Grŵp Anwleidyddol y Cynghorydd Sir David Jones i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy i gymryd lle'r Cynghorydd Sir Garry Banks.

Penododd Cynghrair Annibynnol Powys y Cynghorydd Sir Timothy Van-Rees i'r Pwyllgor Cyflogaeth ac Apeliadau i gymryd lle'r Cynghorydd Sir Gareth Ratcliffe.

Penododd Cynghrair Annibynnol Powys y Cynghorydd Sir E. Michael Jones i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i lenwi sedd ychwanegol ar y pwyllgor.

Penododd y Grŵp Ceidwadol y Cynghorydd Sir Stephen Davies Jones i'r Pwyllgor Cynllunio, Trwyddedu Tacsis a Hawliau Tramwy i gymryd lle'r Cynghorydd Sir Peter Harris.

| | | |
|---|---|---|
| **13.** | **CWESTIYNAU YN UNOL Â'R CYFANSODDIAD** | **CC95- 2016** |

**13.1 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am y Gwasanaethau Llyfrgell oddi wrth y Cynghorydd Sir Graham Jones**

**A fyddai'n bosibl i mi gael y ffigurau a ysgwyddir ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth llyfrgell symudol (gan gynnwys gweithredu cerbydau a chostau staff) ar gyfer y flwyddyn galendr hon h.y. o 1af Ionawr 2016 hyd heddiw? A fyddai hefyd yn bosibl i mi gael costau cymharol ar gyfer y blynyddoedd calendr 2014 a 2015?**

*O fis Ebrill 2015, mae'r fflyd llyfrgell symudol sy'n gwasanaethu'r sir wedi gostwng o 4 cerbyd i 2, gan ymweld â phob stop yn fisol yn hytrach nag ymweld bob pythefnos. Roedd gostyngiad cyfatebol mewn staffio o 4 llyfrgellydd symudol i 2, fel rhan o'r targedau effeithlonrwydd cyllidebol ar gyfer 2015/16.*
*Bellach mae'r 2 gerbyd yn ymweld â chyfanswm o 374 safle bob mis, sy'n cynnwys rhai pobl sy'n gaeth i'r tŷ ar hyd y llwybrau, ynghyd â chanolfannau dydd/cartrefi preswyl, tai gwarchod, grwpiau chwarae ac ar ddiwedd y diwrnod y tu allan i ysgolion cynradd. Ymwelwyd â 438 safle bob pythefnos â'r 4 cerbyd yn 2014/15, manteisiwyd ar y cyfle i resymoli'r stopiau wrth gynllunio'r llwybrau i'w huno.*

*Cafodd 3ydd cerbyd ei gadw fel un sbâr ym mis Ebrill 2015, a chaiff ei ddefnyddio'n rheolaidd i ddarparu gwasanaeth pan fydd y prif gerbydau'n cael eu gwasanaethu fel mater o drefn neu wedi methu, i sicrhau parhad gwasanaeth i gwsmeriaid. Prynwyd un fan newydd yn lle hen un ym mis Mawrth 2016, fel rhan o drefn adnewyddu cerbydau rheolaidd y fflyd, ond gan ddefnyddio cyfalaf grant allanol oddi wrth Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd (MALD) Llywodraeth Cymru. Darperir mynediad lifft i bob cerbyd, fel bod pobl anabl yn gallu gwneud defnydd da o'r cyfleuster.*
*Benthycodd y gwasanaeth llyfrgell symudol 45,860 o eitemau i gwsmeriaid yn 2015/16.*
*Mae cefnogaeth gyhoeddus ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell symudol yn uchel; yn yr ymarfer ymgynghori cyhoeddus ar ddyfodol y gwasanaeth llyfrgell, Ebrill – Gorffennaf 2016, teimlai 88% o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig iawn neu'n weddol bwysig cynnal y gwasanaeth hwn yn y dyfodol. Hefyd, roedd yr ymgynghoriad blaenorol ynglŷn â'r gostyngiad mewn oriau agor llyfrgelloedd cangen ac ymweliadau â llyfrgelloedd symudol yn dwyn sylw at hyn:*
*"Mae'r gwasanaeth yn wirioneddol werthfawr i'r bobl sy'n ei ddefnyddio. Ceir llawer o bobl nad ydynt yn gallu teithio i lyfrgell a'r rheini nad ydynt yn gallu cario llyfrau trwm yn bell iawn. Mae hwn yn wasanaeth pwysig iawn, plîs cadwch ef"*
*Hefyd tynnir sylw at werth y gwasanaeth i bobl anabl a'r rheiny â symudedd cyfyngedig:*
*Mae'r gwasanaeth yn wirioneddol werthfawr i'r bobl sy'n ei ddefnyddio. Ceir llawer o bobl nad ydynt yn gallu teithio i lyfrgell a'r rheini nad ydynt yn gallu cario llyfrau trwm yn bell iawn. Mae hwn yn wasanaeth pwysig iawn, plîs cadwch ef"*

*<u>Gwybodaeth gyllidebol:</u>*

| | Blynyddoedd Calendr | | |
|---|---|---|---|
| *Llyfrgell Symudol* | *2014* | *2015* | *2016-heddiw (31/08/16)* |
| *Llandrindod* | *46,003* | *16,344* | *3,505* |
| *Y Trallwng* | *50,991* | *14,587* | *3,182* |
| *Y Drenewydd* | *51,598* | *39,747* | *30,370* |
| *Aberhonddu* | *34,323* | *33,942* | *29,056* |

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Jones oedd faint o staff, yn cynnwys gyrwyr, cafodd eu cyflogi yn y gwasanaeth llyfrgell symudol. Nid oedd Deiliad y Portffolio sy'n gyfrifol am y gwasanaeth yn bresennol felly byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu a'i ddosbarthu i bob aelod.

**13.2 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Chyanliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams**

**Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nifer o safleoedd ym Mhowys a ddatblygwyd yn rhannol ar gyfer defnydd diwydiannol, mae un o'r safleoedd yn Aber-miwl lle gosodwyd y ffyrdd a'r seilwaith sawl blwyddyn yn ôl.**
**Bellaf rwyf ar ddeall y bydd y safle hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn y dyfodol agos ar gyfer ailgylchu, a yw deiliad y portffolio yn gallu cadarnhau a yw hyn yn gywir, hefyd a yw deiliad y portffolio yn gallu rhoi gwybod i mi**

**a'r Cyngor pryd y mae'n debygol y bydd hyn yn cael ei gwblhau, a pha fath o ailgylchu fydd yn digwydd yno?**

*Roedd Parc Busnes Aber-miwl yn rhan o Fenter Adfywio Dyffryn Hafren, menter ar y cyd rhwng Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru, a gafodd ei lansio ar 22ain Hydref 2009. Roedd rhan o'r cynllun sy'n ymwneud â datblygu dau safle roedd Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt, gan ddefnyddio Cyllid Ewropeaidd, i ddatblygu seilwaith safleoedd, roedd safle Aber-miwl, yr ydych yn cyfeirio ato, yn un o'r ddau safle.*

*Mae'r safle yn Aber-miwl yn addas ar gyfer unedau bach ac felly mae'n debyg yr opsiwn gorau ar gyfer ei ddatblygiad a rheolaeth dymor hir byddai i'r Cyngor Sir ymgymryd â hyn, ac felly, fel y byddwch eisoes yn ymwybodol, cafodd cyllid cyfalaf ei gynnwys ym mlaen gyllideb Cyfalaf y Cynghorau (cytunodd y Cyngor arni ar 25ain Chwefror) i alluogi'r Cyngor i brynu'r safle oddi wrth Lywodraeth Cymru a hefyd ariannu cam cyntaf y datblygiad ar y safle. Mae trafodaethau i brynu'r safle yn mynd rhagddo ar hyn o bryd â Llywodraeth Cymru.*

*Ar yr un pryd, mae'r gwasanaeth HTR ar hyn o bryd yn edrych ar safleoedd addas ar gyfer amrywiaeth o swyddogaethau ar draws Powys, gan gynnwys Gogledd Powys. Mae'n ymddangos y gallai safle Aber-miwl ddarparu safle delfrydol ar gyfer ein gwasanaeth ailgylchu gwastraff yn y Gogledd, oherwydd bod ganddo fynediad uniongyrchol yn syth oddi ar gefnffordd ac mae wedi'i leoli i ffwrdd o gymunedau preswyl gan liniaru unrhyw aflonyddwch sy'n gallu digwydd â safle gweithredol sydd angen gweithredu oriau hir ac ati. Felly, rydym yn teimlo y gallai fod cyfle i gyd-leoli'r rhan hon o'r gwasanaeth yn llwyddiannus ar safle Aber-miwl gan leoli'r uned yng nghefn y safle a pharhau i ganiatáu i'r safle gael ei ddatblygu yn sylweddol ag unedau busnes, sy'n parhau i fod yn brif uchelgais ar gyfer y safle pwysig hwn.*

*Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi fod yn glir ar hyn o bryd nad oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud ar y mater hwn, ac yn amlwg na ellir eu gwneud tra bod trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru ynglŷn â pherchnogaeth y safle.*
Cwestiwn atodol y Cynghorydd Williams oedd pa fath a swm o ddeunydd fyddai'n cael ei brosesu ar y safle. Esboniodd Deiliad y Portffolio y byddai'r safle yn ymdrin â deunydd ailgylchu ymyl y ffordd o ogledd y sir ac y byddai'r safle yn ddigon mawr i ymdrin â hyn.

**13.3 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Chyanliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwilym Williams from County Councillor Gwilym Williams**

**Mae adroddiadau yn y papur lleol bod y Cyngor wedi gorwario oddeutu £5.5miliwn yn yr ychydig fisoedd cyntaf o'i gyllideb yn destun pryder.**
**A yw deiliad y portffolio ar gyfer cyllid yn gallu rhoi sicrwydd i mi a'r Cyngor fod ganddo afael ar gyllid Powys ac y byddwn o fewn y gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon?**

*Yng Nghyfarfod y Cabinet ar 13eg Medi, wrth gyflwyno fy Adroddiad Cyllid misol, rhoddais wybod i'r Cabinet fod y gorwariant rhagamcanol ar 31ain Mawrth 2017, wedi'i amcangyfrifo ar hyn o bryd yn £5.725 miliwn. Ni ddylid dehongli hyn fel gorwariant yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn. Mae'n amcangyfrif o beth fydd y*

*sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol oni bai y cymerir camau adferol. Yn wir efallai y byddai'n werth nodi yn y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf, rydym wedi cyflawni arbedion o £7.89 miliwn. Dyma 63% o'r £12.6m o arbedion sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016-17.*

*Fodd bynnag, cafodd y pryder a fynegais i'r Cabinet ei sbarduno gan y ffaith bod y ffigur diwedd blwyddyn rhagamcanol wedi cynyddu rhwng mis Mehefin a Gorffennaf gan £297k. Mae gennym bolisi o gofnodi arbedion pan fyddant yn cael eu cyflawni yn unig ac felly dylid disgwyl gweld y gorwariant rhagamcanol yn lleihau o fis i fis wrth i ni symud trwy'r flwyddyn. Cafodd fy mhryder ei gefnogi ymhellach gan dystiolaeth a gafwyd pan fynychais Ddiwrnod Her Gyllideb y Tîm Rheoli ar 28ain Awst lle'r oedd un Gyfarwyddiaeth yn rhagamcanu gorwariant o £5.016m erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.*

*Rydym wedi gosod cynllun ariannol 3 blynedd cytbwys, ac mae'n hanfodol bod gwasanaethau'n byw o fewn eu cyllideb, mae gorwario neu fethiant i sicrhau arbedion, yn rhoi'r holl gynllun 3 blynedd yn y fantol a gall arwain at effaith enfawr ar y gwasanaeth dros oes y cynllun.*

*Fel Deiliad y Portffolio ar gyfer Cyllid rwy'n ymwybodol bod angen mynd i'r afael â'r materion hyn cyn gynted â phosibl tra bod amser i adfer y sefyllfa. Felly rhoddais gynnig gerbron y Cabinet yn y cyfarfod hwnnw ar 13eg Medi, yn galw ar y Prif Weithredwr a'i Uwch Dîm Rheoli i gyflwyno cynllun adfer cyn gynted â phosibl, â'r nod o ddod â'r Cyngor yn ôl o fewn y gyllideb. Derbyniodd y cynnig gefnogaeth unfrydol y Cabinet.*

*Mae gwaith ar y gweill i lunio cynllun adfer ac rwyf wedi trefnu i'r Cyngor gael y newyddion diweddaraf am gynnydd mewn sesiwn briffio fer ar ddiwedd busnes heddiw.*

*O ran eich cais am sicrwydd ni fydd y gyllideb wedi gorwario ar ddiwedd y flwyddyn, mae arnaf ofn ni allaf roi'r sicrwydd hwnnw ar yr adeg hon, ond gall y Cyngor fod yn sicr bod popeth posibl yn cael ei gwneud i gywiro'r sefyllfa anodd hon.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Sir Williams oedd pam nad oedd pryniannau'n cael eu craffu cyn iddynt gael eu gwneud. Eglurodd Deiliad y Portffolio ar gyfer Cyllid y bu Tîm Gwasanaethau Masnachol yn edrych ar gomisiynu a chaffael ac yn goruchwylio gwariant sydd wedi arwain at arbedion. Aeth Deiliad y Portffolio rhagddo i egluro bod y gorwariant rhagamcanol wedi cynyddu rhwng mis Mehefin a mis Gorffennaf ac felly roedd Cabinet wedi cyfarwyddo'r Tîm Rheoli i gynhyrchu cynllun adfer i fynd i'r afael â'r gorwariant rhagweledig. Nid oedd yn gallu gwarantu'r Cyngor y byddai o fewn y gyllideb ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac atgoffaodd y Cyngor y byddai unrhyw orwario yn galw ar gronfeydd wrth gefn.

**13.4 Cwestiynau i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Gomisiynu a Chaffael a'r Aelod Portffolio chyfrifoldeb am Ofal Cymdeithasol oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**A wnaiff y Cabinet longyfarch fy etholwr Rob Davies ar iddo ennill Medal Aur yn y Gemau Paralympaidd yn Rio a manylu ar sut maent yn defnyddio chwaraeon i helpu i wella iechyd a lles ym Mhowys?**

*Mae Datblygu Chwaraeon yn cynnig cefnogaeth enfawr wrth godi ymwybyddiaeth o iechyd a lles o ddydd i ddydd ledled Powys. Mae ein Swyddogion Datblygu Chwaraeon Cymunedol wedi'u lleoli ym mhob ysgol uwchradd ym Mhowys i ddarparu cyfleoedd helaeth i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ym mhob clwstwr ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a'r gymuned. Yn gweithio'n bennaf mewn lleoliadau addysg; mae'r swyddogion hefyd yn ymgysylltu'n aml â rhieni, gofalwyr, sefydliadau ieuenctid ac oedolion yn ogystal â bod wrth law i gefnogi a chynghori cymdeithasol a phartneriaid ychwanegol sy'n gofyn am hyn.*

*Rydym yn ymdrechu'n barhaus i godi lefelau gweithgarwch corfforol, iechyd a lles ym Mhowys. O'r dystiolaeth gyfredol y manylwyd arni isod o'r* ***Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2013 a 2015*** *er mwyn bod* ***'wedi gwirioni ar chwaraeon am oes'*** *mae'n i blentyn gael y sgiliau corfforol cywir i gymryd rhan mewn chwaraeon (gallu), ynghyd â'r hyder a'r cymhelliant i fod eisiau cymryd rhan a rhoi cynnig ar weithgareddau newydd (a grëwyd gan brofiadau pleserus). Mae plant yn elwa o gael cyfleoedd di-rif i gymryd rhan mewn gwahanol chwaraeon a gweithgareddau ac yn gallu ymarfer eu sgiliau (datblygu gallu, hyder a mwynhad).*

*Ym Mhowys byddwn yn defnyddio canlyniadau'r arolwg sylweddol hwn (a gynhelir bob dwy flynedd) i barhau i ddatblygu cyfleoedd a rhoi cyfeiriad a fydd yn cynyddu'r lles cyffredinol yn ein cymunedau. Anelwn at ddarparu'r ddarpariaeth orau a fydd yn gwella ac yn annog datblygiad disgyblion iach a hyderus, a fydd yn eu tro yn tyfu ac yn datblygu yn oedolion egnïol, sy'n rhedeg yn gyfochrog â'n* ***gweledigaeth Chwaraeon Powys – bod cadarnle ar gyfer chwaraeon lle mae pob preswylydd yn egnïol ac mae Powys yn sir o bencampwyr.***

*Isod manylir ar amrywiaeth o ganfyddiadau pwerus y mae Chwaraeon Powys yn falch i'w datgan ac yn teimlo eu bod fel cyfanrwydd yn cyfrannu at ddatblygu iechyd a lles ar draws Powys.*

- *Darganfu arolwg Chwaraeon Ysgol 2015* ***bod 49% o ddisgyblion Powys wedi gwirioni ar chwaraeon am oes (wedi'i fesur gan 3 gweithgaredd neu fwy'r wythnos) sy'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol Cymru sef 48%.*** *Wedi'u cymharu â chanlyniadau 2013 ar gyfer Powys (41%), Cymru (40%).*

- *Yn Chwaraeon Powys rydym yn ymfalchïo mewn datblygu ac ymbaratoi ein cymunedau â set sgiliau cyflawn sydd eu hangen i gyflawni a llwyddo.* ***Rydym yn falch bod 79% o'n disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth roi cynnig ar weithgareddau newydd sy'n cyfateb i'r cyfartaledd cenedlaethol ac yn gynnydd ers canlyniadau 2013 (74%).*** *Os yw disgyblion yn hyderus yn eu gallu, maent yn gallu mwynhau chwaraeon yn hamddenol ac yn gystadleuol ac, at hynny, byddant bob amser yn dewis cymryd rhan mewn cyfleoedd gweithgaredd corfforol.*

- ***Mae Powys yn falch iawn i gael nifer uwch na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n mwynhau chwaraeon mewn clybiau ar ôl ysgol ac amser cinio, (2015 – 57%, 2013 - 54%, Cymru, 53%).****Ffactor mawr sy'n cyfrannu yw gwaith ein Swyddogion Datblygu Chwaraeon Cymunedol sy'n cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd chwaraeon cynhwysol i bawb yn eu clystyrau cynradd, ysgolion uwchradd a chymunedau fel ei gilydd.*

- ***Rydym yn falch i gyhoeddi bod 62% o ddisgyblion Powys yn teimlo bod Chwaraeon ac Addysg Gorfforol yn eich helpu i gael ffordd o fyw iach sy'n gyfartal â'r cyfartaledd cenedlaethol, (2013 - 54%).*** *Teimlwn ei bod yn bwysig ac rydym yn falch y caiff hyn ei adlewyrchu yn y canlyniadau a bod pobl ifanc heddiw yn cydnabod manteision niferus gweithgarwch corfforol.*

- ***Mae 62% o fyfyrwyr Powys yn gyfforddus yn cymryd rhan mewn Addysg Gorfforol a chwaraeon, (2013 – 60%, Cymru – 60%).*** *Ein nod yw galluogi myfyrwyr Powys i deimlo'n hollol gyfforddus ac wedi'u grymuso gan weithgarwch corfforol. Mae ein rhaglen 5x60 yn darparu llais dylanwadol i ddisgyblion sy'n galluogi'r disgyblion i gymryd perchnogaeth dros eu cyfleoedd allgyrsiol a gyrru'r rhaglen ymlaen.*

- ***Adroddwyd bod 94% enfawr o ddisgyblion ysgol ym Mhowys wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden anffurfiol.*** *Mae hyn yn cyfrannu'n aruthrol at arwain ffordd o fyw gweithgar ac iach yn annibynnol. Yn chwarae rôl aruthrol mewn cynyddu iechyd a lles yr unigolyn yn gyffredinol a hefyd, bydd yn fwy tebygol o barhau'n weithgar a gwneud dewisiadau i barhau i gadw'n egnïol gydol ei (h)oes.*

- ***Mae 66% o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon cymunedol o leiaf unwaith yr wythnos o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 63% ac mae 63% o ddisgyblion Powys yn aelodau clwb chwaraeon.*** *Unwaith eto, mae ein Swyddogion Datblygu Chwaraeon Cymunedol yn gweithio'n ddiflino i ddarparu cyfleoedd cynhwysol di-rif i gyd o fewn eu cymunedau. Yn gweithio o ddydd i ddydd â chlybiau chwaraeon, grwpiau ieuenctid a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol i ddarparu darpariaeth hygyrch a phroffesiynol.*

- ***Ym Mhowys mae 67% o ddynion a 65% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf unwaith yr wythnos yn y gymuned.*** *Dyma ganfyddiad aruthrol ar gyfer Powys a Datblygu Chwaraeon o ystyried y dirywiad diweddar yng nghymdeithas heddiw mewn cyfranogiad merched mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws pob oedran.*

*Yn benodol â Chwaraeon Anabledd ym Mhowys dros y flwyddyn ddiweddau mae clybiau wedi cynyddu gan 7.3% ac mae nifer y sesiynau a gynhelir wedi cynyddu'n aruthrol gan 20%, â chyfleoedd cyfranogiad wedi cynyddu gan 7.6%.*

*Yn dilyn y Gemau Paralympaidd yn Rio, mae Swyddog Chwaraeon Anabledd Powys (Beverley Tucker) wedi adrodd bod presenoldeb mewn sesiynau wedi dyblu yn y rhan fwyaf o achosion, yn yr wythnosau diwethaf. Mae'r galw am ddarpariaeth wedi cynyddu'n sylweddol a rhagwelir y bydd clybiau pellach yn cael eu datblygu o ganlyniad.*

*Gobeithiwn y byddwch yn canfod y canlyniadau uchod yn ddiddorol a pharchus. Yn y rhan fwyaf o achosion mae Powys yn cyfateb i safon y cyfartaledd cenedlaethol neu hyd yn oed yn uwch na'r canlyniad cyfartalog cenedlaethol. Er na chawsom sgôr is na'r cyfartaledd mewn unrhyw ddatganiad byddwn yn ymdrechu i gynyddu'r canlyniadau hyn bob blwyddyn heb unrhyw hunanfodlonrwydd. Rydym yn ceisio darparu'r ddarpariaeth fwyaf cynhwysfawr a phroffesiynol ar gyfer holl drigolion ym Mhowys a byddwn yn parhau i wneud hynny.*

*Mae'r canlyniadau uchod yn dangos rôl Datblygu Chwaraeon wrth adeiladu a datblygu sylfaen gref a chynhwysfawr ar gyfer iechyd a lles ym Mhowys ac rydym yn gobeithio y bydd y cabinet yn parhau i'n cefnogi wrth gyflawni ein gweledigaeth.*

***Rob Davies – Paralympiad Aur 2016***

*Mae Uned Datblygu Chwaraeon Powys wrth ei bodd i weld athletwr o Bowys yn derbyn gwobr fawreddog fel medal Aur Paralympaidd. Mae Rob yn fodel rôl ardderchog i bob darpar athletwyr ym Mhowys ac rydym yn falch iawn bod ei waith caled, ymrwymiad ac ymroddiad i chwaraeon wedi arwain at ganlyniad o'r fath.*

*Rydym yn gobeithio y bydd Rob yn derbyn Gwobr Gydnabyddiaeth Arbennig yng Ngwobrau Chwaraeon Sir Frycheiniog a Sir Faesyfed y flwyddyn nesaf am ei lwyddiant diweddar mewn chwaraeon. At hynny, gobeithiwn y bydd Rob yn derbyn ein gwahoddiad agored i'r holl brif ddigwyddiadau chwaraeon dros y flwyddyn galendr nesaf ac wedi hynny fel llysgennad chwaraeon ar gyfer Powys. Rydym yn hyderus y bydd Rob yn ysbrydoli ac yn ennyn brwdfrydedd disgyblion a chymunedau ledled Powys â'i daith rymus at lwyddiant.*

*Rydym yn gobeithio y bydd Rob ar gael yn benodol i fod yn siaradwr gwadd yn ein Gwobrau Chwaraeon blynyddol yn y gwanwyn, yn ogystal ag ysbrydoli a chymell cannoedd o Lysgenhadon Ifanc awyddus yng nghynhadledd flynyddol Powys yn y Flwyddyn Newydd. Yn ogystal, rydym yn hyderus y bydd Rob yn darparu ymweliadau ag ysgolion a chymunedau drwy gydol y flwyddyn fel y mae eisoes wedi gwneud ac rydym ar gael i gydlynu a chefnogi Rob â hyn.*

*Rydym yn angerddol ynglŷn â darparu cyfleoedd i bawb ar draws Powys ac yn teimlo y bydd llwyddiant diweddar Rob yn chwarae rhan hanfodol wrth ennyn brwdfrydedd miloedd o drigolion Powys i gynyddu eu lefel gweithgarwch corfforol sydd, yn ei dro, er budd iechyd a lles personol.*

*Mae dolenni ynghlwm at fideo o eiliadau olaf Rob Davies cyn ennill y fedal Aur yn Rio 2016, a hefyd trosolwg cryno o beth y mae chwaraeon yn golygu i Rob ers ei ddamwain yn 2006.*

*Mae'r clipiau fideo yn dangos yn glir sut mae Rob yn fodel rôl enfawr ar gyfer iechyd a lles yma ym Mhowys a'n nod yw peidio â methu cyfle i gofnodi'r cyflawniad gwych hwn, a allai fod yn un llawer mwy.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance oedd beth oedd y Cyngor yn ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc, yn enwedig rheiny o ardaloedd difreintiedig, yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon? Yn absenoldeb Deiliad y Portffolio byddai'r Arweinydd yn trefnu i'r cwestiwn gael ei ateb a'i ddosbarthu i bob aelod. Manteisiodd y Cynghorydd Sir Hayes ar y cyfle i longyfarch Jim Roberts o Sir Drefaldwyn a oedd yn aelod o dîm rygbi cadair olwyn Prydain Fawr yn y Gemau Paralympaidd.

**13.5 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Eiddo, Adeiladau a Thai oddi wrth y Cynghorydd Sir Matthew Dorrance**

**Rwyf wedi codi nifer o bryderon â'r Aelod Cabinet ar gyfer Tai ac uwch swyddogion ynglŷn â rheolaeth ystadau a stoc tai'r Cyngor yn Ward St John ac wedi cael sicrwydd y gwneir gwelliannau ac eir i'r afael â phryderon.**
**A wnaiff yr Aelod Cabinet roi dadansoddiad manwl yn awr o'r gwelliannau y gallaf ddisgwyl eu gweld, y pryderon bydd hi'n mynd i'r afael â hwy ac erbyn pryd?**

*Ysgrifennaf yn dilyn cwestiwn y Cynghorydd Matthew Dorrance mewn perthynas â'i bryderon ynglŷn â rheolaeth stoc tai'r Cyngor yn ei ward. Rwyf i, a nifer o uwch swyddogion y Cyngor, wedi ymweld â ward St John i drafod ei bryderon a nodi meysydd i'w gwella.*

*Hoffwn ddechrau trwy ddweud y gwnaethpwyd dros £3.9 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf, yn y 4 blwyddyn ariannol ddiwethaf, yn adeiladwaith cartrefi y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn ward St John. Mae buddsoddiad hwn wedi gweld cwblhau'r gwaith canlynol yng nghartrefi yn y ward:*

- *ailweirio*
- *drysau a ffenestri newydd*
- *insiwleiddio waliau allanol a gwaith ail-rendro*
- *gwaith ail-doi*
- *cynllun cladin pren newydd*
- *systemau gwresogi newydd*
- *ceginau newydd*
- *ystafelloedd ymolchi newydd*

*Mae'r gwaith hwn wedi sicrhau bod tenantiaid yn y ward yn byw mewn cartref wedi'u moderneiddio, mwy ynni-effeithlon, sy'n bodloni Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae'r gwaith hwn hefyd wedi gwneud llawer i wella ymddangosiad gweledol yr ystadau.*

*Fodd bynnag, er bod y gwaith wedi cyflawni gwelliant angenrheidiol i gartrefi ar yr ystâd, mae eu cwblhau wedi achosi rhywfaint o amhariad i'r preswylwyr, yn arbennig y defnydd o rai o'r meysydd parcio fel closydd safle gan gontractwyr y cyngor. Byddaf yn sicrhau bod yr amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ar yr ystadau yn cael ei chyfleu i denantiaid a phreswylwyr, i ddarparu eglurder ynglŷn â phryd y bydd yr holl feysydd parcio yn dychwelyd i'w swyddogaeth arferol.*

*Pan ymwelais â ward St John gyda'r Cynghorydd Matthew gwnaethom nodi meysydd sydd angen gwelliannau pellach fel meysydd parcio, modurdai a llwybrau ar yr ystâd. Mae'r Uwch Swyddogion a minnau'n cydnabod bod gwelliannau i'w wneud I amgylchedd yr ystâd, ac ar draws gweddill stoc tai'r cyngor, a bydd y gwelliannau hyn yn cael ei raglennu unwaith y bydd y gwaith hwn i wella adeiladwaith y stoc tai wedi'i gwblhau ym mis Mawrth 2018. Bydd y Gwasanaeth Tai yn llunio rhaglen ar gyfer gwaith amgylcheddol ar draws ein hystadau tai erbyn Medi 2017.*

*O ran ansawdd gwasanaethau rheoli ystâd rwy'n ymwybodol bod rhai o'r materion y mae'r Cynghorydd Matthew wedi'u codi wedi cael eu hachosi o ganlyniad i'r trefniadau cytundebol newydd mewn perthynas â gwaith cynnal a chadw tiroedd, yn enwedig chwistrellu chwyn ar lwybrau o amgylch yr ystâd, ac aethpwyd i'r afael â'r rhain. Fodd bynnag, rydw i a'r Uwch Swyddogion yn*

*awyddus i weld gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau rheoli ystadau ar draws holl ystadau'r cyngor ym Mhowys ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried ffyrdd o wella ein gwasanaethau o ran yr agwedd hon ar reoli ein stoc tai. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried ffyrdd o gynyddu presenoldeb staff ar ein hystadau, o bosibl trwy gyflogi gofalwyr ystâd. Byddwn yn cyflwyno ein cynigion mewn perthynas â hyn ym mis Rhagfyr 2016.*

*Hefyd rydym yn bwriadu y bydd gan bob ystâd y mae'r cyngor yn berchen arnynt gynllun gweithredu ystâd. Caiff y cynlluniau gweithredu hyn eu datblygu a'u cyflawni mewn partneriaeth â thenantiaid, preswylwyr ac aelodau lleol gan nodi'r materion allweddol ar gyfer gwella'r ystadau a sut y bydd y gwasanaeth tai yn gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau eraill a'r gymuned leol i fynd i'r afael â hwy. Bydd gwaith yn dechrau ar ddatblygu cynlluniau gweithredu ym mis Ionawr 2017, ar ôl i'r Gwasanaeth Tai recriwtio staff ychwanegol mewn swyddi arwain ym mis Ionawr 2017. Byddwn yn blaenoriaethu datblygu a chwblhau cynlluniau gweithredu ar gyfer yr ystadau mwy rydym yn berchen arnynt a rhagwelaf y bydd y cynllun gweithredu ystâd ar gyfer Maesyfynnon, Bron y Crug ac Uplands wedi'i gynhyrchu a'i gwblhau erbyn mis Mai 2017.*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Dorrance, rhoddodd Deiliad y Portffolio ar gyfer Eiddo, Adeiladau a Thai sicrwydd y byddai aelodau lleol yn ymwneud â datblygiad y cynlluniau gweithredu ystâd. Dywedodd hefyd bod y gwasanaeth yn bwriadu recriwtio gofalwyr ystâd y gallai Cynghorwyr godi materion â hwy.

**13.6 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas**

**A fyddai deiliad y portffolio gystal â chadarnhau pryd oedd y tro diwethaf y rhoddwyd hyfforddiant penodol i aelodau lleol ynglŷn â'u rolau fel llywodraethwyr AALl?**

*Cynhaliwyd gweithdy hyfforddiant a datblygu ym mis Mawrth 2012. Fodd bynnag mae gofyn i aelodau fynychu'r holl hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr, fel y mae gofyn i lywodraethwyr eraill. Hefyd byddai disgwyl iddynt fynychu'r rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant i lywodraethwyr sy'n cynnwys y gynhadledd flynyddol i lywodraethwyr.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Thomas oedd a yw deiliad y portffolio yn teimlo bod y diffyg hyfforddiant i lywodraethwyr yn holl dymor o wasanaeth y Cyngor yn cyfaddawdu aelodau ac yn rhoi'r Cyngor mewn perygl o feirniadaeth oddi wrth reoleiddwyr? Byddai'r Arweinydd yn trefnu i ymateb gael ei ddosbarthu i'r holl Aelodau.

**13.7 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am Addysg oddi wrth y Cynghorydd Sir Darren Mayor**

**Ym mis Mehefin 2014 comisiynodd yr adran addysg adroddiad i mewn i Hyfywedd ariannol ysgolion Uwchradd.**
**Cynhaliodd PWC yr adroddiad hwn, ac fel rhan o'u hastudiaethau gwnaethant gyfweld â bwrsariaid / rheolwyr busnes pob ysgol uwchradd.**

**Mae Atodiad 1 – sylwebaeth ysgol unigol – yn cynnwys tablau am bob ysgol uwchradd sy'n manylu ar wybodaeth ariannol ysgolion o 2011/12 hyd 2017/18.**
**Ceir llinell amlwg sy'n manylu ar gostau Cludiant a'r defnydd o gyllideb ysgol.**
**Mae'n glir iawn ar beth yr oedd pob ysgol yn gwario eu cyllidebau ar hyn o bryd a'r hyn a ragwelir.**
**Rwy'n siŵr eich bod chi, ynghyd â'ch Pennaeth Gwasanaeth a Chyfarwyddwr Addysg, wedi darllen a thrafod yr adroddiad hwn cyn ei gyhoeddi.**
**Os oedd defnydd cyllideb ysgol Uwchradd Llanfyllin ar gludiant ysgol yn broblem, pam na chafodd ei godi ar yr adeg hon?**

*Wrth ymateb i'r cwestiwn, egluraf mai'r Cynghorydd Myfanwy Alexander oedd deiliad y portffolio ar gyfer Addysg ym mis Mehefin 2014 ac nid y fi. Felly ni allaf ymateb i'r cwestiwn ynglŷn â ph'un a oedd y Cynghorydd Alexander wedi trafod y mater â'r Pennaeth Gwasanaeth neu'r Cyfarwyddwr Addysg.*
*Fodd bynnag rydych wedi gweld adroddiad yr ymchwiliad sy'n mynegi'n glir bod yr ymchwilydd wedi canfod bod y Cynghorydd Alexander yn ymwybodol o'r mater sy'n ymwneud â Chymal 5.2 y Cynllun, a chewch chi, y Cynghorydd Mayor, eich dyfynnu yn 5.48 yr adroddiad.*

Roedd cwestiwn atodol y Cynghorydd Mayor yn holi ynglŷn â ph'un a oedd Deiliad y Portffolio ar gyfer Addysg wedi trafod adroddiad PWC â Phennaeth y Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Addysg, a anfonwyd trwy e-bost at Ddeiliad y Portffolio cyn y cyfarfod ac roedd Deiliad y Portffolio wedi ymateb iddo trwy e-bost. Dywedodd y Cynghorydd Mayor ei fod yn anfodlon â'r ymateb ac yng ngoleuni'r ffaith bod cwmpas adroddiad PWC i mewn i sefydlogrwydd ysgolion uwchradd ym Mhowys yn cynnwys adrodd ar gostau cludiant gofynnodd am gadarnhad nad oedd Deiliad y Portffolio, y Cyfarwyddwr Addysg a'r Pennaeth Ysgolion yn ymwybodol bod Ysgol Uwchradd Llanfyllin yn torri Rheoliad 5.2 hyd fis Ionawr 2016.

**13.8 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir Darren Mayor**

**Annwyl Arweinydd,**

**Ar y 13eg Medi ysgrifennais y neges e-bost ganlynol at y Swyddog Monitro a chawsoch eich cynnwys:**

***Annwyl Clive,***

***Ar ôl ystyried penderfyniad y Cabinet, rwyf wedi cymryd rhywfaint o gyngor a chodwyd y pwyntiau canlynol â mi. Buaswn yn gwerthfawrogi eich sylwadau a disgwyliaf eich ymateb.***

1. ***Mewn perthynas ag Offeryn Statudol 2005 Rhif 2914 (Cy.211), Rheoliad Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 (OS 2005), buaswn yn ddiolchgar petaech yn gallu darparu cyfeiriadau i mi, mewn deddfwriaeth, a oedd yn grymuso Cabinet i gyrraedd ei benderfyniad a chael blaenoriaeth dros hawliau a gweithdrefnau a nodir yn y ddeddfwriaeth uchod, OS 2005.***

2. *Ar ddydd Gwener 22ain Gorffennaf 2016, penderfynodd y Cabinet i atal 4 llywodraethwr AALl o Ysgol Uwchradd Llanfyllin dros dro, am gyfnodau amrywiol. O dan Reoliad OS 2005 7 (1) a 27 (1) Cyngor Sir Powys yn unig sydd â'r pŵer i benodi llywodraethwyr AALl a chael gwared arnynt.* O dan OS 2005 yw'r unig gorff a grymuswyd â'r hawl i atal llywodraethwyr yw'r corff llywodraethu.

3. *Deallaf fod yr Ysgol Uwchradd wedi cael cyfarwyddyd i beidio â rhoi unrhyw bapurau - cofnodion ac agendâu - i'r llywodraethwyr ataliedig, mewn perthynas ag unrhyw gyfarfodydd y bwrdd llywodraethu.* O dan Reoliad OS 2005 *49 (4)(a) rhoddir yr hawl i lywodraethwr a ataliwyd dderbyn yr holl bapurau a ystyrir mewn cyfarfod y corff llywodraethu*

*Rwy'n gwerthfawrogi y ceir nifer o reoliadau sy'n ymwneud â rheoli ysgolion, a bydd nifer fach â blaenoriaeth dros yr OS 2005 a llywodraethu ysgolion.*

*Felly, fel mater o frys, gofynnaf I chi ddarparu cyfeiriadau mewn deddfwriaeth, sy'n cymryd uchafiaeth dros yr OS 2005, yn caniatáu i'r Cabinet atal llywodraethwyr dros dro a gwadu hawliau fel y nodir uchod.*

*Oherwydd y rhoddir gwybod i'r Cabinet yn ystod y broses apelio, credaf ei bod yn rhesymol gosod terfyn o 5 diwrnod gwaith ar ddarparu'r wybodaeth hon. Os na allwch ddarparu'r dystiolaeth hon yn yr amserlen hon, byddaf yn tybio nad yw'n bodoli ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r ffaith bod y Cabinet wedi gweithredu y tu hwnt i'w awdurdod a gwadu hawliau a roddir i lywodraethwyr trwy'r gyfraith. Yn eu tro, byddaf yn cynghori Ysgol Uwchradd Llanfyllin bod yr Awdurdod wedi gweithredu y tu hwnt i'w bŵer*

*Dymuniadau gorau*

*Darren*

Ni wnaeth y Swyddog Monitro ymateb neu gydnabod y neges e-bost hon hyd nes i mi ysgrifennu eto ar 20fed Medi – cawsoch eich cynnwys yn y neges e-bost hon hefyd, ymatebodd â'r neges e-bost ganlynol:

*Annwyl Darren*
*Diolch am eich dwy neges e-bost.*
*Byddaf yn ymateb yn fanwl i'r pwyntiau a godwyd gennych, ond yn gyffredinol mae gan yr unigolyn / corff sydd wedi penodi llywodraethwr â'r gallu i atal y llywodraethwr hwnnw dros neu gael gwared arno/arni. Fel y cyfryw, rydych chi a 2 llywodraethwr AALl arall yn parhau i fod wedi'ch atal dros dro ac ni allwch gymryd rhan mewn materion y Bwrdd Llywodraethu hyd nes i'r ataliad dros dro ddod i ben.*
*Cofion*
*Clive Pinney*

Ysgrifennais eto, yn ogystal â siarad ag ef yn uniongyrchol gan ofyn iddo anfon copi ataf o'r union offerynnau statudol sy'n cymryd blaenoriaeth dros yr Offerynnau statudol rwyf wedi'u dyfynnu yn ogystal â thros y cyngor oddi wrth Lywodraethwyr Cymru, a rhoddodd wybod yn bendant i

**Is-gadeirydd y Corff Llywodraethu yn Llanfyllin mai'r unig gorff sydd â phŵer i atal yw corff llywodraethu'r ysgol.**
**Rwy'n parhau i aros am ymateb.**
**O ganlyniad, fel y byddwch yn hollol ymwybodol o'r sefyllfa a chi'ch hun fel Arweinydd sydd wedi gweinyddu dros yr ataliadau a roddwyd, eglurwch i mi pa statudau / rheoliadau sydd ag uchafiaeth dros gyngor oddi wrth Lywodraethwyr Cymru a'r Offerynnau Statudol rwyf wedi'u dyfynnu? Diolch**

*Ymateb*
*Mae Cyfreithiwr y Cyngor wedi fy sicrhau oherwydd bod gan y Cyngor y gallu i benodi llywodraethwyr AALl a chael gwared arnynt o dan Reoliad 27 Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 bod gan y Cyngor hefyd y pŵer i atal Llywodraethwyr AALl dros dro.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Mayor oedd gofyn i'w ataliad dros dro fel llywodraethwr ddod i ben. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n trafod y mater â Deiliad y Portffolio ar gyfer Addysg pan fyddai'n dychwelyd, ond nid oedd yn rhagweld unrhyw newid i'r penderfyniad.

**13.9 Cwestiwn i'r Arweinydd gan y Cynghorydd Sir Gwynfor Thomas**

**Ym mis Mehefin 2014 comisiynodd yr adran addysg adroddiad i mewn i hyfywedd ariannol ysgolion uwchradd.**
**Cafodd yr adroddiad hwn ei lunio gan PWC.**
**Mae Atodiad 1 – sylwebaeth ysgol unigol – yn cynnwys tablau sy'n manylu ar wybodaeth ariannol benodol am bob ysgol o 2011/12 hyd 2017/18.**
**Ceir llinell amlwg sy'n dangos costau cludiant a'r defnydd o gyllideb ysgol gan bob ysgol wrth ddarparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol.**
**Mae'n glir iawn ar beth yr oedd pob ysgol yn gwario eu cyllidebau ar hyn o bryd a'r hyn a ragwelir.**
**Fel Arweinydd rwy'n siŵr eich bod wedi darllen a deall yr adroddiad hwn.**
**Â'r atodiad yn manylu ar sut roedd cyllidebau ysgol yn cael eu defnyddio gan bob ysgol ar gludiant, pam na wnaethoch godi pryderon am ddefnydd Ysgol Uwchradd Llanfyllin o'i chyllideb ar gludiant ysgol ar ôl 2011/2012 - ar ôl gweithredu Rheoliad 5.2 yn llawn?**

*Yng ngoleuni'r materion a godwyd yng Ngwrandawiadau Apêl Llywodraethwyr yr AALl mewn perthynas ag adroddiad PWC, rwyf wedi trefnu i Mr Jonathan Walters, yr Ymchwilydd Annibynnol, ystyried perthnasedd ei ymchwiliad i adroddiad PWC, os o gwbl. Dan yr amgylchiadau, nid wyf o'r farn ei bod yn briodol darparu ymateb i'ch cwestiwn hyd nes y bydd yr eitem o ymchwiliadau pellach gan Mr Walters wrth law.*

*Byddaf yn trefnu i'ch cwestiwn gael ei ymgorffori yn Agenda cyfarfod cyntaf y Cyngor Llawn ar ôl i'r adroddiad pellach gan Mr Walters ddod ar gael.*

Cwestiwn atodol y Cynghorydd Thomas petai'r ymchwiliad gan Jonathan Walters yn cael ei ailagor, a fyddai'n gallu gweld ei gylch gorchwyl. Dywedodd y Swyddog Monitro y gofynnir i Jonathan Walters ystyried i ba raddau, os o gwbl, roedd adroddiad PWC wedi effeithio ar ei ymchwiliad.

**13.10 Cwestiwn i'r Arweinydd oddi wrth y Cynghorydd Sir William Powell**

**Yn dilyn trafodaethau Arweinydd y Cyngor a minnau â Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys sydd newydd ei ethol, Dafydd Llewelyn, pa waith sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Sir Powys, mewn partneriaeth â Dyfed Powys i fonitro digwyddiadau o anoddefgarwch a throseddau casineb yn ein cymunedau? Mae digwyddiadau rwy'n ymwybodol ohonynt yn ystod y misoedd diwethaf yn Ne'r Sir yn amrywio o wawdio plant gwladolion yr UE ar iard yr ysgol am 'ddychwelyd adref' ar ôl Brexit i ddifrod troseddol o eiddo masnachol. O ystyried ein hangen i gadw ein cymunedau yma ym Mhowys yn ddiogel, goddefgar a chroesawgar, sut mae'r gwaith hwn yn cael ei hyrwyddo gan Gyngor Sir Powys yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gyfansoddwyd yn ddiweddar, er mwyn hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?**

*Mae'r Cyngor yn trin hiliaeth ac anoddefgarwch yn ddifrifol iawn. Mae'r Prif Weithredwr wedi hyrwyddo gwaith "Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth", sef sefydliad mewn partneriaeth â'r gwasanaeth ysgolion, ac mae'r cyngor wedi talu am weithdai mewn ysgolion ar draws Powys a dosbarthu adnoddau addysgu a dysgu, i gefnogi hyn. Mae gan yr holl ysgolion raglenni addysg bersonol a chymdeithasol cynhwysfawr ar waith sy'n cynnwys ffocws ar ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae gan ysgolion bolisïau gwrth-fwlio ac ymddygiad sy'n sicrhau y ceir dull cyson o ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad hiliol. Adroddir am unrhyw ddigwyddiad hiliol i'r awdurdod.*

*Caiff Trosedd Casineb ei monitro fel rhan o waith Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys o dan Cydlyniant Cymunedol. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys cynrychiolwyr y Cyngor Sir, Heddlu Dyfed Powys, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. Rwyf wedi copïo dyfyniad o gofnodion cyfarfod mis Medi er eich gwybodaeth. Mae'n amlwg bod pob asiantaeth yn weithredol wrth ryngweithio â Fforwm Troseddau Casineb Dyfed Powys ond mae'r data cyfredol yn awgrymu lefelau isel o droseddau casineb. Anogwyd staff y Cyngor i fynychu sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb a sefydlwyd trwy'r fforwm hwnnw, â'r sesiynau nesaf ddiwedd mis Tachwedd 2016. Mae Cydlynydd Diogelwch Cymunedol y Cyngor, Fay Smith, hefyd wedi gofyn i bartneriaid geisio cefnogi prosiectau cymunedol a bydd y gwaith hwn yn cael ei asesu. Byddwn yn sicrhau bod y digwyddiadau rydych wedi'u datgan wedi'u hatgyfeirio yn gywir a'r asiantaethau priodol wedi ymchwilio iddynt.*

***DYFYNIAD O GOFNODION CSP***

*Pryderon ynglŷn â Throseddau Casineb ar ôl Refferendwm yr UE. Roedd 12 Atgyfeiriad Trosedd Casineb ym Mhowys i Gymorth i Ddioddefwyr ar gyfer mis Mehefin 2016, o'i gymharu â 7 ar gyfer mis Mehefin 2015. Gyda niferoedd isel a diffyg data manwl, nid yw'n bosibl nodi unrhyw uchafbwyntiau neu ddehongli unrhyw batrymau. Efallai ei bod yn wir y gall y rhan fwyaf o brofiadau fod yn ymwneud â cham-drin geiriol lefel isel ni adroddwyd arno. Gyda'r dadleuon parhaus ynglŷn â'r DU yn ymadael yr UE, byddai'n ddoeth bod partneriaid CSP yn ymwybodol ac yn cysylltu â'r gymuned*

Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Powell, dywedodd yr Arweinydd y byddai'n sicrhau bod Cynghorwyr yn cael eu copïo i mewn i wahoddiadau i sesiynau ymwybyddiaeth troseddau casineb yn y dyfodol.

**13.11 Cwestiwn i'r Aelod Portffolio â chyfrifoldeb am yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd oddi wrth y Cynghorydd Sir William Powell**

**Pa ymdrechion y mae Cyngor Sir Powys yn eu gwneud i dynnu ar ymarfer da ymhlith prif awdurdodau lleol eraill yng Nghymru ar gyfer darparu gwasanaethau Gwastraff ac Ailgylchu effeithlon? Yn benodol, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i gynnal prosiect peilot ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd taladwy, fel sy'n digwydd yn Sir Fynwy ar hyn o bryd? Hefyd, oherwydd y manteision i ddefnyddwyr y gwasanaeth sy'n oedrannus ac yn agored i niwed, a'r rheiny â lle storio cyfyngedig, a fydd deiliad y portffolio yn ystyried treialu cynllun ar gyfer troliau, sy'n addas ar gyfer stacio hambyrddau ailgylchu rhwng casgliadau? Mae cynllun o'r fath wedi bod yn boblogaidd ac yn effeithiol yn Wrecsam a Blaenau Gwent.**

*Mae swyddogion o Bowys yn cysylltu'n rheolaidd â'u cymheiriaid mewn awdurdodau eraill i rannu ymarferion gorau o ran dulliau casglu gwastraff ac ailgylchu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn mynychu'r fforymau hyn yn rheolaidd.*

*Mae Powys yn dilyn dull casglu blychau gan ddidoli ar ochr y ffordd sy'n ddewis 'glasbrint' y mae Llywodraeth Cymru yn ei ffafrio. Er nad ydym yn darparu troli, gellir stacio'r blychau hyn ac felly ni ddylent gymryd gormod o le yng nghartrefi pobl. Mae'r system troli y mae awdurdodau eraill yn defnyddio yn system annatod â blwch a throli ac ni ellir ei ôl-osod i'n system bresennol. Oherwydd bod cost cyfalaf defnyddio'r system troli dros ddwywaith cymaint â'r trefniadau blwch presennol, â'r cyfyngiadau cyllidebol presennol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anodd cyfiawnhau buddsoddiad cyfalaf mewn troliau. O ran trigolion oedrannus ac agored i niwed, byddwn yn cynnig gwasanaeth casglu a gynorthwyir lle bydd y gweithredwyr yn casglu o ddrws yr eiddo fel na fydd yn rhaid i breswylwyr gario eu bocsys.*

*Ar hyn o bryd gall preswylwyr gymryd eu gwastraff gwyrdd naill ai i'r Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref neu fel arall, i un o'r Safleoedd Ailgylchu Cymunedol. Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar ddichonoldeb gwasanaeth casglu gwastraff gwyrdd taladwy. Bydd natur wledig Powys yn gwneud unrhyw gynllun o'r fath yn her oherwydd ei bod yn bwysig ei fod yn hyfyw yn ariannol oherwydd ni fyddai'r Cyngor yn gallu rhedeg y gwasanaeth hwn ar golled.*

*Mewn ymateb i gwestiwn atodol y Cynghorydd Powell, dywedodd Deiliad y Portffolio ar gyfer yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y byddai'n hapus i fynd â'r Cynghorydd Powell i ymweld ag awdurdod sy'n defnyddio'r system troli.*

| 14. | PRESENTATION BY THE CHIEF FIRE OFFICER |
|---|---|

Rhoddodd Mr Colin Davies, y Prif Swyddog Tân ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gyflwyniad ar waith y Gwasanaeth. Rhoddodd drosolwg ar y gwasanaeth a'i weithgareddau ym Mhowys. Dywedodd y byddai'r gwasanaeth yn gwneud £9m o arbedion yn cyfateb i 20% o'r gyllideb erbyn 2016 ond rhybuddiodd y byddai toriadau pellach yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Cost y gwasanaeth oedd £4 fesul cartref fesul mis.

Roedd y gwasanaeth yn ceisio cyflawni effeithlonrwydd pellach trwy gydweithio a chyd-leoli gwasanaethau, er enghraifft, â'r Gwasanaeth Ambiwlans a'r Heddlu.

Cymerodd y Prif Swyddog Tân gwestiynau oddi wrth aelodau. Mewn ymateb i gwestiwn oddi wrth Ddeiliad y Portffolio ar gyfer Cyllid, dywedodd y byddai'r Awdurdod Tân yn gosod ei gyllideb ar 12 Rhagfyr.

**Y Cynghorydd Sir K F Tampin (Cadeirydd)**